



Yr Is-adran Diwylliant  
Llywodraeth Cymru

[diwylliant@llyw.cymru](mailto:diwylliant@llyw.cymru)

04/09/2024

Annwyl Syr/Fadam,

## Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024-2030

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Nodir yn y ddogfen ymgynghori bod blaenoriaethau diwylliant Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg. Hoffem drafod nifer o'r dyheadau sy'n ategu'r blaenoriaethau hynny, a'u potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i siaradwyr.

Yn gryno, hoffem i'r Llywodraeth gymryd camau cadarn gydag amcanion pendant i roi lle canolog i'r Gymraeg wrth hyrwyddo diwylliant, yng nghyd-destun cymunedau Cymraeg, y gyfundrefn addysg, twf economaidd, twristiaeth, datblygu digidol a chynllunio'r gweithlu.

### **Blaenoriaeth 1: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd**

**Dyhead 1:** Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.

**Dyhead 2:** Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru.

**Dyhead 4:** Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd ac o lesiant cymunedol.

Rydym yn cefnogi pwyslais y Llywodraeth ar gynwysoldeb, hawliau diwylliannol, grymuso cymunedau a gwerth cyfranogiad lleol yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys grymuso siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau ledled Cymru i sicrhau bod y sector diwylliant yn eu cynnwys ac yn croesawu a hwyluso eu mewnbwn a'u cyfranogiad fel siaradwyr Cymraeg. Rydym yn falch bod y Llywodraeth yn cydnabod bod gan gymunedau eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain ac yn cysylltu hynny ag elfennau sy'n

#### Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C  
Doc Fictoria  
Caernarfon  
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygybraeg.cymru

#### Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C  
Victoria Dock  
Caernarfon  
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales



cynnwys enwau lleoedd, sy'n rhan bwysig o hanes a threftadaeth leol. Dylai deall enwau lleoedd a'u gwerthfawrogi gael eu hannog yn rhan o'r gwaith o hyrwyddo ein diwylliant.

**Dyhead 5:** Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr ac arweinwyr diwylliannol.

Rydym yn cefnogi bwriad y Llywodraeth i sicrhau profiadau diwylliannol rheolaidd i blant o oedran cynnar. Gellir sicrhau bod pob plentyn yn dysgu am ddiwylliant Cymru trwy'r gyfundrefn addysg. Mae gan y Cwricwlwm newydd i Gymru rôl allweddol yn y cyd-destun hwn. Un o'i bedwar diben yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus, ac mae hynny'n cynnwys dysgu am eu diwylliant, eu cymuned a'u cymdeithas. Mae'r Cwricwlwm hefyd â'r bwriad o sicrhau fod plant a phobl ifanc yn dysgu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus er mwyn eu cynorthwyo, ymhlith agweddau eraill, i ddeall diwylliant unigryw Cymru.

Trwy gynnal rhaglen o brofiadau diwylliannol rheolaidd gallai'r Llywodraeth gyflwyno profiadau theatrig, er enghraifft, i genhedlaeth newydd o blant. Byddai hynny hefyd yn sicrhau cyflogaeth i artistiaid, gan ddod â budd economaidd i'r sector diwylliant. Byddai'n dda gwybod mwy am y bwriad hwn, er enghraifft a fyddai'n golygu taith theatr flynyddol i bob disgybl, sioeau yn ymweld ag ysgolion neu artistiaid preswyl mewn ysgolion? Dylai'r Llywodraeth ddarparu mwy o wybodaeth am y profiadau arfaethedig hyn a'i chynlluniau i sicrhau y cânt eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dyhead 6:** Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau.

Nodwn gydnabyddiaeth y Llywodraeth i werth cyfraniadau pobl hŷn i'r sector diwylliant a rôl y sector yn cefnogi llesiant pobl hŷn ac yn cysylltu'r cenedlaethau. Credwn y dylai fod modd i siaradwyr Cymraeg ymgysylltu â diwylliant trwy gyfrwng y Gymraeg gydol eu hoes.

### **Blaenoriaeth 2: Cenedl diwylliant**

**Dyhead 7:** Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog.

Trafoda'r Llywodraeth botensial diwylliant Cymraeg i hybu cynnydd dysgwyr Cymraeg, yn ogystal â her sicrhau cynaliadwyedd gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg bregus. Rydym yn cefnogi dymuniad y Llywodraeth i'r Gymraeg fod yn ganolog i ddatblygu economaidd ac i'r datblygiad hwnnw hyrwyddo ein diwylliant, gan gefnogi cymunedau Cymraeg a'u hiaith.

Rydym o'r farn fod gan ddiwylliant rôl fel catalydd ar gyfer newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at iaith. Mae mynychu digwyddiadau diwylliannol a bod â chysylltiad â diwylliant Cymraeg yn ffordd o gynyddu defnydd o'r iaith. Wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a mwynhau hynny, mae siaradwyr yn gwneud cysylltiadau cadarnhaol â'r iaith ac yn dod yn fwy hyderus a mwy parod i ddefnyddio'u Cymraeg. Gall hynny yn ei dro arwain at ragor o ddefnydd o wasanaethau Cymraeg yn fwy cyffredinol.



Dylai'r Llywodraeth hybu ymdrechion i sicrhau y gellir cynnal gweithgareddau diwylliannol a gwaith trefnu digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol Cymraeg yn cynnig un o'r ychydig beuoedd uniaith Gymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu mynychu. Trwy hynny maent yn creu gofod gwerthfawr sy'n normaleiddio defnyddio'r iaith.

Dylid cefnogi siaradwyr Cymraeg ar bob lefel i ddefnyddio'u Cymraeg wrth fynychu digwyddiadau diwylliannol Cymraeg. Mae sicrhau cefnogaeth i siaradwyr newydd neu ddysgwyr Cymraeg i fynychu digwyddiadau diwylliannol yn hollbwysig i'w cyflwyno i fywyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith partneriaeth da wedi digwydd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i greu gwersi o gwmpas darnau o theatr a threfnu sgysiau cyn sioeau i siaradwyr newydd.

Dylai'r Llywodraeth gefnogi mudiadau lleol a chenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu profiadau diwylliannol, er enghraifft Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mentrau Iaith Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Yn rhan o'i waith yn cefnogi siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau, dylai'r Llywodraeth gefnogi mentrau lleol i berchnogi adeiladau i'w troi'n ganolfannau cymunedol a diwylliannol, yn ogystal â'r digwyddiadau a gynhelir yn y canolfannau hynny wedyn. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r bwriad a fynegir yn y ddogfen ymgynghori i ystyried mwy o waith traws-sector, gan gynnwys datblygu economaidd.

**Dyhead 8:** Mae llesiant diwylliannol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisiau ledled Cymru.

**Dyhead 9:** Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod manteision ymgysylltu â diwylliant o safbwynt iechyd a lles. Gwyddom mor werthfawr yw'r cyfleoedd i fwynhau digwyddiadau a phrofiadau diwylliannol Cymraeg ers cyfnod pandemig COVID-19 pan gollwyd y cyfleoedd hynny. Rhaid sicrhau felly fod hyrwyddo'r Gymraeg yn ddiwylliannol yn rhan hollbwysig o'r ffordd y mae Cymru yn datblygu yn y dyfodol. Bydd yn hanfodol gwneud hynny er mwyn sicrhau ein bod yn cadw talent, arbenigedd, profiad ac ymrwymiad gwirfoddolwyr, pobl broffesiynol a chanolfannau sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Dyhead 11:** Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr.

Cyfeiria'r Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig at dystiolaeth sy'n nodi bod cymhellion ymwelwyr i ddod i Gymru yn cynnwys y Gymraeg. Yn y ddogfen ymgynghori, trafoda'r Llywodraeth bwysigrwydd cysylltu diwylliant â thwristiaeth yn ogystal â dulliau datblygu cynaliadwy. Ei nod yw hyrwyddo twf economaidd sy'n cyd-fynd â chynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a manteision iechyd i drigolion ac ymwelwyr. Rydym yn cefnogi'r egwyddorion hyn a dymuniad y Llywodraeth i sicrhau bod diwylliant Cymru a'r Gymraeg i'w gweld mewn digwyddiadau yng Nghymru. Credwn y dylai'r Gymraeg a'i diwylliant fod yn ganolog i dwristiaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau budd i gymunedau Cymraeg. Dylai'r Llywodraeth gynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod



twristiaeth yn datblygu mewn modd cynaliadwy sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant Cymru a chymunedau Cymraeg.

### **Blaenoriaeth 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy**

**Dyhead 17:** Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella ein diwylliant.

Trafoda'r Llywodraeth gysylltedd digidol a'i allu i gysylltu cymunedau Cymru â'i gilydd trwy gynnwys diwylliannol ar-lein, yn ogystal â thynnu sylw'r byd at ein diwylliant. Golyga hyn fod potensial creu cynulleidfa o siaradwyr Cymraeg ar gyfer ein diwylliant, nid yn unig yng Nghymru ond yn rhyngwladol. Eglurir fod modd cyfieithu testun arddangosfeydd i unrhyw iaith. Dylai hyn olygu fod pob testun ar gael yn Gymraeg a bod y dewis hwn yn cael ei hyrwyddo i bob aelod posibl o'r gynulleidfa Gymraeg yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r Llywodraeth wedi adnabod cyfle i adolygu cyflwr datblygiad digidol yng Nghymru a mynd ati i ymdrin â'r cyfleoedd a'r heriau yn y maes. Rydym yn cefnogi'r bwriad hwn ac yn annog y Llywodraeth i sicrhau fod y Gymraeg yn rhan ganolog o'i chynllunio ar gyfer datblygiad digidol y sector diwylliant yn y dyfodol.

**Dyhead 19:** Mae'r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwyb i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus.

Cyfeiria'r ddogfen ymgynghori at brinder sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r sector diwylliant mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth wedi adnabod angen i gynllunio'n ofalus a bwriadol i ddatblygu'r gweithlu ac rydym yn ategu hynny. Credwn fod angen diogelu rôl y sector diwylliant Cymraeg fel cyflogwr sy'n gwneud cyfraniad economaidd pwysig at hyfywedd cymunedau Cymraeg ac fel pau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol yn y gweithle. Dylai cynllunio'r gweithlu gynnwys cydweithio â'r sector addysg er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o lwybrau gyrfa yn y sector diwylliant, pwysigrwydd sgiliau Cymraeg a'r posibilrwydd o gynnal gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes. Byddai hyn yn golygu sicrhau fod addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

Nodir yn y Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig fwriad i fonitro a gwerthuso effaith cynnig y Llywodraeth yn y dyfodol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried unrhyw effaith ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg a gweithredu ar sail y canfyddiadau yn ôl yr angen. Dylai'r canfyddiadau ac unrhyw gamau gweithredu dilynol gael eu cyhoeddi.

Rydym yn croesawu'r datganiad yn y Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig am wneud cydnabyddiaeth i werth y Gymraeg, a hyrwyddo a dathlu'r iaith, yn rhan annatod o weithgarwch diwylliannol ar draws ein holl sectorau. Rydym hefyd yn cefnogi amcan y blaenoriaethau newydd i atgyfnerthu'r cynnig diwylliannol cyfrwng Cymraeg a'i wneud yn amcan strategol yn y dyfodol. Gobeithio y bydd y sylwadau uchod yn cyfrannu at gyrraedd y nod hwnnw.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**  
Comisiynydd y Gymraeg